

YN CYNNWYS: /
WHAT'S IN THIS
ISSUE:

PROFIAD O'R CWRS
TROCHI /
EXPERIENCE OF THE
IMMERSION COURSE

TUD.4 / PAGE 4

RECORD BYD
MISTAR URDD! /
MISTAR URDD'S
WORLD RECORD!

TUD.5 / PAGE 5

HER HANNER
TYMOR SEREN /
SEREN HALF TERM
CHALLENGE

TUD.6 / PAGE 6



LLONGYFARCHIADAU!

ISOBEL YN ENNILL AM EI CHYFRANIADAU CERDDOROL I'R YSGOL.
ISOBEL WINS FOR HER MUSIC CONTRIBUTIONS TO THE SCHOOL.



Rhodddwyd y gwpan hardd hon i Ysgol Maes Garmon er cof am y gantores opera Lynne Davies, cyn-ddisgybl o'r ysgol, gan ei thad, Gwyndaf Davies. Pleser o'r mwyaf oedd cyflwyno'r wobwr i Isobel Bl.13 - disgybl talentog iawn sydd wedi cefnogi holl weithgareddau Cerddoriaeth yr ysgol ers iddi ymuno â'r ysgol ym mlwyddyn 7. Yn ogystal â bod yn aelod o gerddorfa a chôr y sir, mae hi hefyd yn aelod o Gôr a Cherddorfa Ieuencid Cymru! Mae Isobel yn gobeithio astudio Fferylliaeth yn y dyfodol.

This beautiful cup was donated to the school in memory of opera singer Lynne Davies by her father, Gwyndaf Davies. It was a pleasure to present the prize to Isobel, yr 13- a talented student who has supported the Music department's extra-curricular activities since year 7. As well as being a member of the county choir and orchestra, she is also a member of the National Youth Choir and Orchestra of Wales! Isobel hopes to study Pharmacy in the future.

NEGES GAN EIN PENNAETH / A MESSAGE FROM OUR HEADTEACHER

Mae'n bleser gennym rannu ein trydydd cylchlythyr ar gyfer y flwyddyn ysgol hon. Er gwaethaf yr heriau sy'n ein gwynebu fel cymuned ysgol, rydym yn parhau i geisio cynnig ystod eang o weithgareddau a phrofiadau i gyfoethogi cwricwlwm ein dysgwyr.

Yn ystod yr hanner tymor a fu rydym wedi penderfynu canolbwyntio ar rai agweddau sylfaenol o fywyd yr ysgol, gan gychwyn efo prydlondeb i wersi. Mae dysgwyr wedi ymateb yn dda i'r ffocws hwn ac mae lefelau prydlondeb wedi gwella. Yn ystod yr hanner tymor nesaf, rydym yn bwriadu canolbwyntio ar safon ein gwisg ysgol gan ein bod wedi penderfynu dychwelyd at y disgwyliad o gael pob dysgwr i wisgo gwisg ysgol lawn bob dydd a dod â'u cit Addysg Gorfforol gyda nhw i newid. Teimlwn y bydd hyn yn helpu'r disgyblion i ail-ymafael ar normalrwydd wedi'r cyfnod heriol. Ceir gwybodaeth bellach yn y cylchlythyr hwn.

Hoffwn achub ar ar y cyfle i ddiolch i chi am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad parhaus a dymuno hanner tymor hamddenol ac iach i chi. Bydd yr hanner tymor nesaf i bob dysgwr yn dechrau ddydd Llun 28ain o Chwefror hyd at ddydd Iau, y 7fed o Ebrill, gan fod dydd Gwener wedi'i ddynodi'n ddiwrnod Dysgu Proffesiynol ar gyfer staff addysgu.

It is a pleasure for us to share our third newsletter this year. Despite the challenges that are facing us as a school community, we continue to try and provide as many activities and experiences as possible to enhance our learners' curriculum.

During this past half term we have been focussing on improving basic aspects of our school life, beginning with punctuality to lessons. The learners have responded well and the punctuality rates have improved. During our next half term, we are going to focus on the standard of our school uniform as the school is returning to full school uniform on a daily basis, with pupils bringing their P.E. kit with them rather than arriving at school wearing their kit. We feel this will help the pupils regain a sense of normality following the challenging times we have had. Further details can be found in this newsletter.

I would like to take the opportunity to thank you for your continued support and cooperation and to wish you a healthy and relaxed half term break. The school will re-open on Monday, the 28th of February until Thursday, the 7th of April. as Friday the 8th of April is a Professional Learning day for teaching staff.

Gwisg Ysgol / School Uniform

Gyda rheoliadau Covid yn newid, mi fydd yr ysgol yn dychwelyd at y drefn o gael pawb i ddod mewn gwisg ysgol, gan gynnwys y diwrnodau pan fo gwersi addysg gorfforol ymlaen. Mae gwisg ysgol yn galluogi pob plentyn i deimlo'n gyfwerth ag eraill, yn ogystal â hybu ein hunaniaeth fel ysgol. Yn ddiweddar, mae cynnydd wedi bod yn y niferoedd sy'n gwisgo hwdis/ leggings, peidio gwisgo blasers, a gwisgo esgidiau anaddas fel Converse neu Dr Martens. Gofynnwn i chi fel rhieni a gwarcheidwaid i sicrhau bod eich plentyn yn gwisgo'n addas ar gyfer y diwrnod ysgol. Rhaid i bawb wisgo gwisg Addysg Gorfforol swyddogol yr ysgol ar gyfer gwersi AG hefyd.

With the Covid regulations changing, we are returning to pre-Covid expectations where every pupil arrives in school uniform, even when they have PE lessons that day. School uniform allows all pupils to feel equal, as well as promoting our identity as a school. Recently, there has been an increase in the number of pupils who wear hoodies/ leggings, forget blazers, and wear inappropriate footwear such as Converse or Dr Martens' boots. We ask you as Parents and Guardians to ensure that your child wears the correct uniform for their school day. All pupils must also wear the official Physical Education uniform for their PE lessons.



Gwisg ysgol bl.12 ac 13 yw crys gwyn, tei Chweched Dosbarth, siwmpwr du â logo'r ysgol, esgidiau du a throsus du/ sgert ddu. The school uniform for years 12 and 13 is a white shirt, Sixth Form tie, a black jumper with the school logo, black shoes and black trousers/ a black skirt.



CLWB PERFFORMIO

Ysgol Maes Garmon



Pob Dydd Mawrth o 15:00-16:00



Mae Clwb Perfformio YMG ar hyn o bryd yn cwrdd bob Dydd Mawrth Rhwng 3 a 4 o'r gloch.

Tîm creadigol o Theatr Clwyd sy'n rhedeg y clwb ac mae'r disgyblion sydd wedi mynychu'r clwb wedi gweithio ar greu perfformiad Nadoligaidd gwreiddiol, creu cerddoriaeth, creu golygfeydd, dawnsio, chwarae gemau ac edrych ar sgriptiau. Mae'r tîm yn awyddus i bawb fwynhau eu hunain! Y gobaith yw gallu creu sioe i'w berfformio yn nhymor yr haf. Mae croeso cynnes i bawb o flynyddoedd 7 i 9 fynychu'r sesiynau ac fe hoffwn ni weld mwy o ddisgyblion yn dod i gael blas ar beth sy'n digwydd yn y clwb.

Ar ôl hanner tymor fe fydd y sesiynau yn rhedeg o 3 tan 4.30 bob nos Fawrth. Dewch yn llw!
(Mrs Sarah Carter-Jones)

The YMG Performing Club presently meets every Tuesday between 3 and 4 o'clock. The club is run by a creative team from Theatr Clwyd and the pupils who have been attending have created a Christmas performance, created music, created scenes, danced, played games and studied scripts. The team is keen for all to have fun and enjoy themselves! The goal is to create a show that will be performed in the summer term. Pupils from years 7-9 are welcome to attend the sessions and I would like more pupils to come and see what our club is all about. Following the half-term break, the sessions will run between 3:00-4:30pm. All are welcome!
(Mrs Sarah Carter-Jones)

Trochi- Immersion

Dechreuais fel myfyriwr yn Ysgol Maes Garmon yn 2018, pan doeddwn i ddim yn gwybod yn agos at unrhyw air o Gymraeg! Es i drwy'r cwrs Trochi, lle roedd Mrs Thomas yn gweithio'n galed iawn i gael y grŵp o bobl oedd ddim yn deall Cymraeg i'r safon maen nhw eu hangen i ddysgu trwy'r iaith. Dyma sydd wedi fy ysbrydoli i fod yn athrawes Gymraeg!

Pan ddechreuodd y cwrs Trochi, roeddwn i'n teimlo'n ansicr ac ofnus i fod mewn ysgol sy'n llawn o bobl sy'n siarad mewn iaith estron, ac fe ges i ofn erchyll o feddwl gwneud fy arholiadau TGAU mewn llai na phedair blwyddyn trwy'r Gymraeg. Rydw i'n gallu cofio ym mlwyddyn wyth, ces i brawf bach Mathemateg, a doeddwn i ddim yn deall bron i unrhyw gwestiwn ysgrifenedig, ac roeddwn i eisiau gadael YMG, ond rydw i wrth fy modd efo'r ffaith arhosais yma! Datblygais i fy Nghymraeg ac rydw i'n dal yn dysgu'r iaith rŵan, ond rydw i'n falch o fy hun am ddysgu iaith newydd mewn amser prin, ac rydw i'n gobeithio i addysgu Cymraeg i blant eraill un dydd. Rydw i'n siŵr ei fod yn frawychus i unrhyw berson sy'n dechrau yn yr ysgol uwchradd, ac fel aelod o'r Trochi, rydych chi'n cael y dasg hynod anodd o ddysgu iaith newydd, yn ogystal â bod angen cyflawni graddau uchel mewn pynciau eraill. Ond, roedd pob un o'r athrawon yn cefnogi fi, ac rydw i'n gobeithio cael yr effaith yna ar o leiaf un disgybl yn y dyfodol, fel mae'r athrawon Ysgol Maes Garmon wedi cael arnaf i. Rydw i dal ddim yn siŵr os byddaf yn gallu cyflawni'r freuddwyd yma; mae'n anodd gweld fy hun yn addysgu Cymraeg i bobl pan rydw i'n drochwr. Ond mae gen i gefnogaeth barhaus gan fy athrawon, sy'n dweud wrthyf rydw i ddigon da i lwyddo, ac rydw i'n ddiolchgar bob dydd am hynny. Diolch arbennig i Mrs Thomas sydd wedi dysgu popeth i mi; rydych chi wedi newid fy mywyd er gwell. Diolch yn fawr iawn!



Mae Islay wedi dysgu Cymraeg trwy gynllun Trochi yr ysgol. Dyma ei hanes! *Islay learnt Welsh through the school's immersion course. Here she tells us of her experience!*


I joined Ysgol Maes Garmon as a student in 2018, when I couldn't understand a word of Welsh! I followed the school's immersion course, where Mrs Thomas worked extremely hard to get the group of people who did not understand Welsh to the level needed to be able to learn through Welsh. This is what has inspired me to want to be a Welsh teacher!

When I began the immersion course, I felt insecure and scared at being in a school full of people who spoke a language that was strange to me, as well as being scared at the thought of having to complete my GCSEs in less than four years through the medium of Welsh. I remember completing a short Maths test in year 8; I did not understand any of the words and I wanted to leave YMG, but I am so glad that I stayed and persevered! My Welsh language developed and I continue to learn daily, but I'm so proud of myself for learning the language and I hope to teach Welsh to children one day. It can be scary starting secondary school, and for someone who is following the immersion course, you have the addition of having to learn a new language as well as wanting to succeed in your other subjects. Every teacher supported me, and I really hope I have this effect on at least one other pupil in the future, like the Ysgol Maes Garmon teachers have inspired me. I don't know if I'll get to realise this dream; it's sometimes hard to imagine it as a member of the immersion group. However, I have the continued support of my teachers who keep telling me I am good enough to succeed, and I'm grateful every day for such positivity. I would like to thank Mrs Thomas for teaching everything to me; you really have improved my life for the better. Thank you so much!



Diolch i bawb gyfrannodd tuag at record byd Mistar Urdd. Roedd sawl fersiwn gan YMG o 'Hei, Mistar Urdd' wedi eu uwchlwytho gan greu record byd newydd! Mae'n anodd credu bod y mudiad - gychwynnodd efo'r clwb cyntaf yn Nhreuddyn ym 1922- bellach yn 100 oed!

A huge thanks to everyone who contributed renditions of 'Hei Mistar Urdd' towards the Urdd's world record attempt. Several versions from YMG were uploaded contributing to a new world record! It's hard to believe the movement- that began with a small club in Treuddyn in 1922- is now 100 years old!





Her Seren y Sylfaen ! Seren's Star Challenge!



Mae rhwydwaith Seren yn gwahodd disgyblion bl.8-11 sy'n mwynhau dysgu annibynnol i gymryd rhan mewn her sy'n cyffwrdd â nifer o bynciau amrywiol. Bydd y Pennaeth Blwyddyn yn danfon rhagor o wybodaeth i chi.

The Seren network invites pupils from years 8-11 who enjoy independent learning to participate in a challenge that spans numerous subject areas. The Head of Year will be sending further information to you.

Bl./Yrs 8-11



Bwriedir Sylfaen Seren ar gyfer myfyrwyr ym mlynnyddoedd 8-11 mewn ysgolion y wladwriaeth ar draws Cymru ac mae wedi'i gynllunio i gefnogi astudiaethau, helpu dysgwyr i fagu hyder, ac i wneud dewisiadau gwybodus am eu pynciau Lefel A a'u llwybr i brifysgol os mai dyna yw eu huchelgais. The Seren Foundation is for students in years 8-11 at state schools across Wales and is designed to support studies, help learners build confidence, and to make informed choices about their A Level subjects and route to university if that's their ambition



Profiad Cyfweld! / Interviewing Experience!

Fel rhan o broses cyfweld staff newydd, mae'r cynrychiolwyr blwyddyn yn cael cyfweld ymgeiswyr er mwyn gofyn cwestiynau hollbwysig! Cerys bl.7 sy'n adrodd ei hanes hi o gyfweld yn ddiweddar.

As part of the selection process when interviewing new staff members, year representatives are given the opportunity to ask candidates important questions! Cerys from year 7 tells us about her recent experience.

Wrth i wyliau hanner tymor ein cyrraedd, byddwn yn ffarwelio â dau aelod o'n staff. Mae Mr Dave Earnshaw wedi bod yn addysgu Cemeg i ddisgyblion CA4 a CA5 ers y llynedd. Mae Miss Celyn Hughes, sydd wedi bod yn gweithio yn y brif dderbynfa, yn ein gadael am swydd newydd. Pob dymuniad da i'r ddau ohonynt a diolch am bopeth!

As the half term holidays arrive, we will be saying farewell to two members of our staff. Mr Dave Earnshaw has been teaching

Chemistry to KS4 and KS5 students since last year. Miss Celyn Hughes, who has been working at the front reception desk, is leaving to pursue a new job. We wish them both well; thank you for everything!



'Yn ystod diwrnod y cyfweliad, aeth cynrychiolwyr o flwyddyn 7, 8 a 9 i'r neuadd. Roedden ni'n eistedd wrth ddesg a phapur a phen o'n blaen. Cerddodd yr ymgeisydd cyntaf i mewn ac yna eisteddodd i'n gwynebu.

Gofynnais i'r cwestiwn cyntaf ac yna ysgrifennu nodiadau amdani. Gofynnodd pawb arall eu cwestiynau nhw yn eu tro ac yna ysgrifennais rhagor o nodiadau. Yr un drefn oedd i'r ddau ymgeisydd arall. Ffeindiais bod yn y panel yn ddiddorol oherwydd roeddwn yn hoffi'r ffaith bod disgyblion blwyddyn 7, 8 a 9 yn cael eu cynnwys i ddweud eu barn am y tair ymgeisydd. Teimlais bach yn nerfus ar y cychwyn ond yna dechreuais fagu hyder fel roedd yr amser yn mynd yn ei flaen.

Teimlais yn falch bod Ysgol Maes Garmon yn parchu fy marn i fel rhan o'r broses o ddewis yr athro mwyaf addas i'r swydd.'

'During the interview day, the representatives from years 7, 8 and 9 were taken to the hall. We had to sit at a desk with a pen and paper in front of us. The first candidate came in and sat to face us. I asked the first question and I made some notes about her. Every other representative asked their questions in turn and I continued to write more notes. We followed the same procedure for the other two candidates. I found being a member of the panel interesting and I like the fact that pupils from years 7, 8 and 9 were allowed to voice their opinions about the three candidates. I felt nervous at first, but I gained confidence as time went by. I felt proud that Ysgol Maes Garmon had respected my opinion as part of the process which ultimately selected the most suitable teacher for the post.'

Llongyfarchiadau!



Llongyfarchiadau i Lola bl.9 a Lewis bl.7 fu'n cynrychioli Gogledd Ddwyrain Cymru mewn ras trawsgwlad yn ddiweddar ble bu dros 100 yn cystadlu! Congratulations to Lola yr 9 and Lewis yr 7 on representing North East Wales in a recent cross-country race where more than 100 pupils were competing!



Llongyfarchiadau i Noah bl.11 sy'n chwarae i dîm rygbi RGC dan 16 oed. Congratulations to Noah yr 11 who plays rugby with the RGC under 16s team.


Llongyfarchiadau i'r pump sy'n chwarae pêl-rwyd i Ogledd Ddwyrain Cymru-Lola, Hollie, Catrin, Alys a Nancy.

Mae Hollie a Nancy hefyd wedi eu dewis i fod yn rhan o Academi Rhanbarth Cymru!



Congratulations to the five who play netball for North East Wales-Lola, Hollie, Catrin, Alys and Nancy. Hollie and Nancy have also been selected to be part of the Welsh Regional Academy!



Diolch i fechgyn bl.10 ac 11 oedd wedi cymryd rhan mewn gêm safoni rygbi yn erbyn Ysgol Alun yn ddiweddar. Thank you to the yr 10 and 11 boys who recently participated in a moderating rugby match against Ysgol Alun.



ABCH!



Cafodd Blwyddyn 7 hwyl mewn gwrs ABCh ddiweddar wrth ddysgu am ddiogelwch ar-lein. Bu ein dysgwyr yn brysur yn creu sgriptiau a pherfformio ar gyfer fideos diogelwch ar y we ar gyfer eu cyfoedion iau.

Year 7 had lots of fun during their recent ABCh (Personal and Social Education) lesson, learning about the importance of online safety. Our learners wrote scripts and performed, creating online safety videos for their younger peers.



Noson Trydyddol

SIXTH FORM OPTIONS' EVENING

Cadwch y Dyddiad!
Save the Date!

Ble? / Where? YSGOL MAES GARMON

Pryd? / When? 3.3.2022 18:00-19:30

Pam? / Why? CYFLE I CHI SGWRSIO EFO ATHRAWON YR YSGOL AM YR HYN RYDYM YN CYNNIG I FYFYRWYR BL.12

A 13. / A CHANCE TO TALK TO OUR TEACHERS ABOUT WHAT WE OFFER TO OUR YEAR 12 AND 13 STUDENTS.

Bydd cyfle hefyd i chi sgwrsio efo Mr Aled Owen, Pennaeth ein 6ed Dosbarth. There will also be an opportunity to speak to Mr Aled Owen, our Head of 6th Form.



Blwyddyn 11 yn paratoi ar gyfer ei llun blwyddyn! Year 11 preparing for their year photo!

Gwyliau hanner tymor braf i chi gyd!
Have a great half term holiday!